

Crynodeb Hunanasesiad Cyngor Sir Fynwy 2025-26



monmouthshire
sir fynwy



Hunanasesiad 2025-26: Crynodeb

Rydym eisiau bod yn sir carbon sero, gan gefnogi llesiant, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o fywyd. Rydym yn ymroddedig i weithio gyda, ac wrth ochr, ein cymunedau i gyflawni hyn. Mae hyn yn ddiben clir a sefydlwyd gan ein Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Mae ein hunanasesiad blynyddol yn adroddiad cynnydd ac yn dynodi lle mae angen i ni wneud gwelliannau pellach. Yn bwysig, mae'n ein galluogi i gael ein dal i gyfrif gan gynghorwyr etholedig a phobl leol.



Lle teg



I fyw lle mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi'u lleihau

Ein sgôr:
4 (Da)

Rydym wedi:

- Ehangu darpariaeth gofal plant. Mae Dechrau'n Deg yn awr ar gael mewn 41 safle ac mae'r gyfran o blant cymwys sy'n cael mynediad i addysg gynnar wedi cynyddu o 82% i 92%.
- Ymestyn darpariaeth prydau ysgol am ddim i bawb. Gall pob disgybl cynradd yn awr gael cinio newydd ei goginio, yn rhad ac am ddim. Mae'r galw yn 68.6%.
- Darparu manau twym yn y gaeaf, cymorth bywd argyfwng a chymorth ymarferol gyda chostau byw o fudd i gannoedd o bobl leol.

Rydym yn ymroddedig i gryfhau gwydnwch cymunedau a chynyddu'r galw am gymorth wedi ei dargedu lle mae'r diffyg cydraddoldeb mwyaf.

Lle ffyniannus ac uchelgeisiol



Lle sydd â chanol trefi bywiog, lle gall busnesau dyfu a datblygu

Ein sgôr:
4 (Da)

Rydym wedi:

- Gweithio gyda phreswylwyr, busnesau a chynghorau tref a chymuned i ddatblygu cynlluniau creu lle wedi'u targedu ar gyfer canol trefi.
- Cefnogi 120 o bobl i gyflogaeth a chynorthwyo i greu deg busnes newydd.
- Sicrhau dros £35 miliwn o fuddsoddiad ar gyfer prosiectau cludiant ers 2022.

Mae cynnal a chadw ein rhwydwaith ffyrdd yn gostus ac mae'n fwy na'r cyllidebau sydd gennym ar gael. Rydym yn rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi lle gall wneud y gwahaniaeth mwyaf.

Lle cysylltiedig



Lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi

Ein sgôr:
5 (Da iawn)

Rydym wedi:

- Datblygu dulliau sy'n gostwng angen pobl am ofal hirdymor yn cynnwys ailalluogi, technoleg gynorthwyol a buddsoddi mewn cymunedau.
- Creu mwy o leoliadau mewnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac agor darpariaeth breswyl arbenigol yn lleol, yn galluogi mwy o bobl ifanc i aros yn eu cymunedau.
- Gostwng faint o ofal yn y cartref na chaiff ei ddiwallu o 804 awr i 271 awr y mis.

Mae'r galw am ofal cymdeithasol yn parhau i gynyddu ac mae anghenion yn dod yn fwy cymhleth. Rydym yn canolbwyntio ar ddulliau ataliol ac adeiladu cymunedau gwydn.

Lle gwyrdd



I fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon, a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur

Ein sgôr:
4 (Da)

Rydym wedi:

- Dyblu nifer y cerbydau yn ein fflyd o 8% i 16%. Mae'r rhain yn llosgi llai o danwydd ffosil ac yn gwella ansawdd aer lleol.
- Fe wnaeth preswylwyr ailgylchu, aildddefnyddio neu gompostio 71.3% o wastraff aelwydydd – un o gyfraddau uchaf y DU.
- Parhau ein hymrwymiad i fwyd cynaliadwy a gynhyrchir yn lleol. Rydym wedi gwella neu adfer 220 o leiniau rhandir a gweini mwy na 200,000 dogn o lysiau o Gymru yn ein hysgolion.

Sylweddolwn faint yr her a rydym yn ymroddedig i weithio gyda, ac wrth ochr, preswylwyr a phartneriaid i liniaru ac addasu i newid hinsawdd.

Lle diogel



Lle mae gan bobl gartref maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo

Ein sgôr:
4 (Da)

Rydym wedi:

- Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r cyflenwad tai. Symudodd 102 o deuluoedd i gartrefi fforddiadwy newydd y llynedd.
- Cyflwyno dull gweithredu ailgartrefu cyflym. Y llynedd cafodd 69.7% o aelwydydd mewn risg eu hatal rhag dod yn ddigartref.
- Cynyddu'r llety dros dro sydd ar gael a gostwng ein defnydd o lety gwely a brecwast gan 93.5%

Rydym yn ymroddedig i gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol fydd yn cynyddu'r cyflenwad tir ar gyfer cartrefi a swyddi fel y gall mwy o deuluoedd fyw a gweithio yn lleol.

Lle i ddysgu



Lle mae pawb yn cael cyfle i gyrraedd eu potensial

Ein sgôr:
5 (Da iawn)

Rydym wedi:

- Gwella presenoldeb mewn ysgolion a ostyngodd yn y blynyddoedd yn dilyn y pandemig. Mae presenoldeb cynradd nawr yn 93.9% a phresenoldeb uwchradd yn 89.5%.
- Moderneiddio ein ystâd ysgolion. Agorodd ysgol newydd sero net Brenin Harri VIII yn y Fenni yn 2025.
- Creu dull mwy cyson, cynhwysol a theg ar gyfer dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Byddwn yn sicrhau fod pob dysgwr, yn arbennig y rhai sy'n fregus neu ddifreintiedig, yn derbyn y cymorth cywir ar yr adeg gywir.

Pa mor dda ydyn ni'n deall ein cyd-destun lleol a'n lle?

Mae Sir Fynwy yn lle gwych i fyw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef. Gwnaethom ymrwymiad clir i weithio gyda ac wrth ochr cymunedau, gan rymuso pobl i gefnogi ei gilydd a llunio datrysiadau hirdymor. Fe wnaethom lansio gwefan Sgwrsio am Sir Fynwy a mae dros 1,000 o breswylwyr a sefydliadau wedi cofrestru i'w gwneud yn haws i bobl gael sgysiau am y polisïau a'r newidiadau sy'n effeithio arnynt. Rydym hefyd wedi sefydlu fforwm ar gyfer pobl sy'n angerddol am y sir ac sydd eisiau cynrychioli eu cymunedau mewn sgysiau mwy manwl. Ym mis Hydref 2025 fe wnaeth dros 1,000 o bobl lenwi ein harolwg preswylwyr am yr ail

flwyddyn. Fe wnaeth hyn helpu ymhellach i gynyddu ein dealltwriaeth o ganfyddiadau pobl am eu cyngor lleol a'r man y maent yn byw ynddo.

Rydym hefyd wedi ymgysylltu â phreswylwyr, busnesau a chynghorau tref a chymuned i gynhyrchu cynlluniau creu lle partneriaeth i wella canol trefi Sir Fynwy. Mae'r broses creu lle wedi cryfhau gweithio partneriaeth a chreu dealltwriaeth a rennir o heriau a chyfleoedd lleol.



Pa mor dda ydyn ni'n cyflawni y canlyniadau y cytunwyd arnynt?

Rydyn ni wedi asesu asesu cynnydd ar ein hamcanion yn defnyddio graddfa chwe-phwynt. Mae hyn yn rhoi sgôr rhwng 1 (anfoddhaol) hyd at 6 (rhagorol) i bob amcan. Ar ôl yr etholiadau lleol ym Mai 2022 fe wnaethom roi amser i ddeall yr hyn sy'n bwysig i bobl a rhoi'r sylfeini yn eu lle ar gyfer gwella. Roedd hyn yn cynnwys strategaethau newydd ar gyfer yr hinsawdd, yr economi a bwyd. Buom yn cyflawni'r strategaethau hyn ac mae ein asesiad yn gwerthuso yr effaith a gawsant hyd yma dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae llawer o'r pethau yr ydym yn ymroddedig iddynt, tebyg i wella iechyd afon Gwy ac afon Wysg, cyflawni sero net a mynd i'r afael â diffyg cydraddoldeb yn heriau cymhleth na chaiff eu datrys yn gyflym. Mae'r asesiad hwn yn dangos trywydd o welliant cadarnhaol. Mae'r saethau yn ymyl pob un o'r amcanion isod yn dangos y newid mewn asesiad dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae'r lliwiau yn cyfateb â'r sgorau.



↔ Lle teg i fyw

Ein sgôr:
4 (Da)

Rydym wedi canolbwyntio ar wella cyfleoedd bywyd, gostwng effeithiau tlodi ac anfantais a sicrhau y gall preswylwyr gael mynediad i gymorth, gwella eu hiechyd a helpu llunio dyfodol eu cymunedau.

Rydym wedi ehangu darpariaeth gofal plant, cynyddu nifer y plant cymwys sy'n derbyn addysg gynnar o 82% i 95% ers 2022/23 a pharhau i ganolbwyntio Dechrau'n Deg ar y mannau lle mae'r angen mwyaf.


Aethom tu hwnt i'n dyletswydd statudol drwy ddarparu brecwast a hefyd ginio newydd ei goginio am ddim i bob disgybl cynradd sy'n dewis eu cael. Cynyddodd y defnydd o brydau ysgol am ddim i bawb o 64% yn 2022/23 i 68.6% yn 2025/26, er fod hyn yn dal i amrywio rhwng ardaloedd ac mae angen gwaith pellach wedi ei dargedu.

Rydym hefyd wedi parhau i roi cymorth ymarferol i'r rhai sydd fwyaf o angen hynny drwy gynlluniau wedi eu targedu tebyg i Bwyd a Hwyl, darpariaeth chwarae am ddim neu ratach, canolfannau cynnes, cymorth bwyd argyfwng a chefnogaeth ymarferol gyda chostau byw mewn cymunedau ledled y sir.

Gwnaethom gynnydd da mewn gwella mynediad i wasanaethau a chyfleoedd sy'n cefnogi iechyd, cyfranogiad a chynhwysiant. Rydym wedi ymrwmo i ddod yn rhanbarth Marmot, a chynyddu nifer y bobl sy'n cwblhau'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff ac agor Hyb Cymunedol Magwyr a Gwndy.

Rydym wedi cryfhau galluedd gwirfoddoli a chymunedol lleol drwy'r rhaglen Be Community, lansio Sgwrsio am Sir Fynwy i wella ymgysylltu, sicrhau statws Lefel 2 Cyflogwr Hyderus am Anabledd a dod y Cyngor Noddfa cyntaf yng Nghymru i gael achrediad.

Rydym wedi dynodi rhai meysydd ar gyfer gwella. Mae angen i ni sicrhau y caiff ein ymyriadau eu cyfathrebu'n glir, eu targedu'n well ac y cânt eu gwerthuso yn fwy cyson. Mae angen cynyddu'r nifer sy'n derbyn y cymorth sydd ar gael lle mae'r diffyg cydraddoldeb mwyaf a pharhau i weithio gyda chymunedau i ddatblygu dealltwriaeth a rennir am wydnwch cymdeithasol.





Lle gwyrdd

I fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon, a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur

↔ Lle gwyrdd i fyw

Ein sgôr:
4 (Da)

Mae amgylchedd naturiol Sir Fynwy yn ganolog i'n hansawdd bywyd, cymeriad lleol ac economi ymwelwyr. Mae angen i ni warchod a chadw tirweddau rhagorol y sir, gwella bioamrywiaeth ac iechyd afonydd, gostwng allyriadau carbon a chryfhau gwydnwch i newid hinsawdd. Mae'r rhain yn heriau cymhleth a hirdymor a bydd effaith lawn ein gweithredoedd yn cymryd amser, ond mae'n hanfodol ein bod yn parhau i weithredu'n awr i ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

Yn gyffredinol, mae barn preswylwyr am Sir Fynwy fel lle gwyrdd i fyw yn gadarnhaol. Dywedodd 59% o breswylwyr fod gan eu hardal leol amgylchedd glân, dywedodd 65% fod ansawdd yr aer lleol yn dda a dywedodd 75% fod digon o fannau gwyrdd yn eu hardal.

Rydym wedi diwygio ein Strategaeth Argyfwng Hinsawdd a Natur a'i drosi yn gynlluniau gweithredu cliriach. Rydym wedi cwblhau arolygon datgarboneiddio gyda chostau ar draws ein stad a gostwng allyriadau stad gan 17.8% o waelodlin 2019/20. Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn technolegau carbon isel, ynni adnewyddadwy a cherbydau allyriadau isel iawn. Rydym hefyd wedi cynnal perfformiad cryf mewn ailgylchu, gyda 71.3% o wastraff bwrdeisiol yn cael ei anfon i'w ailgylchu, ailddefnyddio neu gompustio, yn uwch na'r targed statudol, a dengys asesiad annibynnol fod ein gwaith ar ostwng gwastraff a bwyd yn neilltuoel o gryf.

Dengys ein tystiolaeth fod maint yr her i gyflawni ein uchelgais ar ddatgarboneiddio yn parhau'n sylweddol. Mae hyn yn ddarlun tebyg ar draws y Deyrnas Unedig.

Bu cynnydd mewn cyfanswm allyriadau rhwng 2022/23 a 2024/25, i raddau helaeth oherwydd gweithgaredd caffael ac adeiladu, ac nid yw ein cyfradd gyfredol o ostyngiad yn ddigon i gyrraedd sero net erbyn 2030 heb fuddsoddiad sylweddol pellach. Rydym wedi gwneud cynnydd pwysig ac yn adeiladu'r dystiolaeth cynlluniau a phartneriaethau sydd eu hangen ar gyfer y cam nesaf, ond mae'r llwybr i sero net yn parhau'n heriol tu hwnt.

Gwnaethom gynydd da wrth gefnogi adferiad natur, gwella gwydnwch amgylcheddol a chryfhau systemau bwyd lleol. Rydym wedi gwella 47 hectar o dir cyhoeddus ar gyfer bioamrywiaeth, cyflwyno 13 prosiect seilwaith gwyrdd, cefnogi 25 prosiect adfer natur a pharhau i weithio drwy bartneriaethau dalgylch a natur i wella cynefinoedd ac iechyd afonydd. Rydym wedi datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth, adfer natur, afonydd a risg llifogydd, ac wedi parhau i gefnogi cymunedau drwy brosiectau seiliedig ar natur gweithgaredd mannau gwyrdd lleol.

Rydym wedi datblygu Strategaeth Bwyd Lleol ac wedi gwneud cynnydd ymarferol ar fwyd cynaliadwy. Rydym wedi gwella neu adnewyddu dros 220 o leiniau rhandir a chafodd mwy na 200,000 dogn o lysiau organig o Gymru eu cyflenwi i ddisgyblion drwy gynllun Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion.

Rydym yn cydnabod fod iechyd afonydd yn dal yn bryder sylweddol a bod rhai canfyddiadau preswylwyr am yr amgylchedd lleol yn is. Rydym hefyd yn cydnabod maint yr her i ostwng ein allyriadau carbon a'r adnoddau sydd eu hangen i sicrhau'r cyflymder newid sydd ei angen.



Lle ffyniannus ac uchelgeisiol



Lle sydd â chanol trefi bywiog, lle gall busnesau dyfu a datblygu

↔ Lle ffyniannus ac uchelgeisiol

Dylai Sir Fynwy fod yn sir lle gall pobl, busnesau a chymunedau ffynnu. Mae Sir Fynwy yn dechrau o sefyllfa economaidd gymharol gryf, gyda lefelau cyflogaeth a chymwysterau uchel, fodd bynnag nid dyma brofiad pawb na phob man. Mae angen i ni felly adeiladu ar y cryfderau hyn mewn ffordd gynhwysol, gynaliadwy ac sydd wedi ei gwreiddio yn anghenion ein trefi a'n cymunedau.

Rydym wedi gwneud cynnydd da wrth sicrhau'r strategaethau, partneriaethau a buddsoddiad sydd eu hangen i gyflawni'r amcan hwn. Rydym wedi gweithio gyda phreswylwyr, busnesau a chynghorau tref a chymuned i ddatblygu cynlluniau creu lle ar gyfer ein trefi, gan greu dealltwriaeth gliriach a rennir o flaenoriaethau lleol a sail ar gyfer gweithgaredd adfywio wedi ei dargedu. Rydym wedi cryfhau'r fframwaith strategol ar gyfer hyrwyddo'r sir drwy ein Cynllun Rheoli Cyrchfan a chysylltu hynny gyda gwaith ehangach tebyg i'r Strategaeth Ddiwylliannol.

Rydym hefyd wedi parhau i ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i wella adeiladau yng nghanol trefi, asedau sy'n wynebu'r cyhoedd a'r cynnig i ymwelwyr. Mae hyn yn helpu i gynyddu'r nifer sy'n ymweld, cefnogi busnes lleol a gwneud ein trefi yn lleoedd mwy deniadol i weithio ynddynt ac ymweld â nhw.

Rydym yn adeiladu ar sylfaen sgiliau a chyflogaeth cryf Sir Fynwy gan ymateb i ardaloedd lle mae angen gweithredu sydd wedi ei dargedu yn fwy. Rydym wedi parhau i gefnogi preswylwyr i symud i waith, ennill cymwysterau a datblygu busnesau. Yn ystod y flwyddyn, mae rhaglenni a gefnogwyd gan y cyngor wedi helpu 120 o bobl i gyflogaeth, cefnogi 90 o fusnesau cyn-cychwyn a busnesau presennol a chreu 10 busnes newydd.

Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd cryf yn cefnogi pobl ifanc sydd mewn risg o ymddieithrio o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, gan gefnogi 44 o bobl ifanc NEET i gyflogaeth. Mae'r gyfran ymadawyr ysgol sy'n NEET yn parhau yn uwch nag a ddymunwn. Gwyddom fod cadw pobl ifanc yn y sir yn parhau yn her. Rydym wedi sicrhau fod ffocws ein Cynllun Datblygu Lleol Adnau Newydd ar fynd i'r afael â'r heriau hyn. Rydym wedi sicrhau cyllid i ddatblygu Canolfan Sailiau newydd yn Sir Fynwy fodd hefyd yn helpu i

Ein sgôr:
4 (Da)

gefnogi llwybrau ôl-16 ar gyfer dysgu.

Mae trafndiaeth a seilwaith yn parhau yn alluogwyr hollbwysig i'r amcan hwn. Rydym wedi mabwysiadu Strategaeth Trafndiaeth Lleol newydd, cryfhau cynllunio trafndiaeth rhanbarthol, sefydlu tîm prosiect seilwaith a sicrhau swm sylweddol o gyllid allanol ar gyfer cynlluniau trafndiaeth a theithio llesol. Ers 2022, rydym wedi sicrhau £35 miliwn i weithredu prosiectau trafndiaeth. Rydym hefyd wedi sicrhau mwy na £24 miliwn ar gyfer teithio llesol, gyda mwy na 100 o lwybrau teithio llesol yn eu lle erbyn hyn, a chynyddodd defnydd y llwybrau gan 4.1%. Rydym hefyd wedi gwella amllder bysus mewn rhai ardaloedd ac yn parhau i gefnogi cynigion mawr rhanbarthol ar gyfer rheilffyrdd a ffyrdd a fyddai'n gwella cysylltedd.

Rydym yn parhau i wynebu heriau sylweddol mewn cynnal ein rhwydwaith priffyrdd, gyda chyflwr ein ffyrdd wedi gwaethygu ymhellach yn ystod y gaeaf diwethaf a'r cefnwlwyth o waith cynnal a chadw yn parhau tu hwnt i'r adnoddau sydd ar gael. Rydym wedi cymryd dull gweithredu wedi ei gynllunio i flaenoriaethu buddsoddiad, gan ymateb i angen brys ac adolygu sut y caiff gwaith trwsio i dyllau yn y ffyrdd eu cyflenwi a'u cyfathrebu. Mae'r bwlch cyllid yn parhau'n sylweddol ac yn parhau i gyfyngu pa mor gyflym y gall cyflwr ffyrdd wella yn gyffredinol.





Lle diogel



Lle mae gan bobl
gartref maen nhw'n
teimlo'n ddiogel ynddo

↔ Lle diogel i fyw

Ein sgôr:
4 (Da)

Dylai Sir Fynwy fod yn sir lle mae gan bawb fynediad i gartref diogel, sefydlog a fforddiadwy ac yn teimlo'n rhan o gymuned lle cânt eu parchu a'u gwarchod. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod cael cartref sefydlog yn sylfaenol i iechyd, llesiant a chyfluoedd bywyd, ac mae cymunedau diogel a chydlynol yn helpu pobl i deimlo mewn cysylltiad, eu bod yn cael eu cefnogi ac y gallant ffynnu.

Rydym wedi gwneud cynnydd wrth gynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy a rhoi'r fframwaith tymor hirach yn ei le sydd ei angen i wella cyflenwad a fforddiadwyedd tai. Cafodd ein Cynllun Datblygu Lleol newydd ei ddatblygu gyda fforddiadwyedd a safonau tai sero net yn greiddiol iddo ac mae'n cynnwys uchelgais polisi cryf. Yn ystod y flwyddyn, cafodd 102 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol eu darparu, a chynyddodd nifer y cartrefi fforddiadwy a gafodd ganiatâd cynllunio i 66. Mae hyn yn dangos cynnydd cadarnhaol, fodd bynnag sylweddolwn y bwlch rhwng y ddarpariaeth gyfredol a lefel yr angen yn y sir y mae'r cynllun datblygu yn anelu i'w gyfarch.

Gwnaethom gynnydd da wrth ostwng defnydd llety dros dro a gwella atal digartrefedd. Drwy ddull gweithredu Ailgartrefu Cyflym, cynyddu capasiti atal ac ailfodelu ein gwasanaethau cymorth tai, rydym wedi cynyddu'r gyfran o geisiadau digartrefedd a gafodd eu hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref i 69.7%.

Rydym wedi gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol, landlordiaid preifat a drwy gaffael eiddo ac ailwrpasu i ehangu'r llety dros dro sydd ar gael. Mae hyn wedi cyfrannu at ostyngiad o 93.5% yn y defnydd o lety gwely a

brecwast ers 2022/23 ac nid oes unrhyw deuluoedd neu bobl ifanc 16 a 17 oed mewn llety gwely a brecwast ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r galw digartrefedd yn parhau'n uchel, mae nifer yr aelwydydd mewn llety dros dro yn parhau'n sylweddol a felly hefyd y cyfnod cyfartalog mae pobl yn ei dreulio yn aros am lety sefydlog, gan ddangos fod cyflenwad tai parhaol yn parhau'n bwysau tyngedfennol.

Rydym wedi parhau i gefnogi stoc tai mwy effeithiol o ran ynni a chymunedau mwy diogel. Drwy gynlluniau fel Eco4, Solar Together a Nyth, rydym yn helpu preswylwyr, yn arbennig aelwydydd incwm is a'r rhai y mae cartrefi oer ac llaith yn effeithio arnynt, i wella effeitholrwydd ynni a gostwng costau. Rydym hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid i ymateb i bryderon am ddiogelwch y gymuned yn cynnwys gweithio gyda phobl ifanc ar droseddau cylllell ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r rhan fwyaf o breswylwyr yn parhau i deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol. Dywedodd 89% o breswylwyr a gymerodd ran yn ein harolwg blynyddol o breswylwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel yn ystod y dydd. Er fod pryderon yn parhau am ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae hyder preswylwyr liw nos yn 65%. Byddwn yn cadw ffocws cryf ar waith atal, gweithio partneriaeth a thargedu sicrwydd mewn cymunedau lle mae'r pryder mwyaf.



Lle cysylltiedig



Lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi

↑ Lle wedi'i gysylltu a phobl yn gofalu

Ein sgôr:
5 (Da iawn)

Dylai Sir Fynwy fod yn sir lle caiff cyfraniadau pobl eu gwerthfawrogi, eu bod yn teimlo'n rhan o gymuned ac y gallant gael mynediad i ofal a chymorth sy'n eu helpu i fyw'n dda ar eu telerau eu hunain. Mae ansawdd, argaeledd a gwydnwch gofal a chymorth yn hollbwysig i lesiant pobl yn awr ac yn y dyfodol.

Rydym yn darparu gofal a chymorth a hefyd yn adeiladu'r dulliau ataliol a seiliedig yn y gymuned sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol. Mae'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol yn parhau i gynyddu gydag anghenion yn dod yn fwy cymhleth, yn arbennig wrth i fwy o breswylwyr fod angen cymorth yn nes ymlaen mewn bywyd a lefelau uwch o angen. Mae hyn yn creu risg parhaus i'n gallu i ddiwallu anghenion pobl mor gyflym ac mor gyson ac y byddem yn ddymuno ac mae'n achosi pwysau ariannol sylweddol.

Rydym wedi parhau i ymateb i hyn drwy arloesi, gweithio partneriaeth a datblygu modelau mwy ataliol o gymorth, yn cynnwys ailalluogi, technoleg gynorthwyol, help cynnar, cymorth llesiant yn y gymuned a llwybrau cryfach sy'n helpu pobl i barhau'n annibynnol yn hirach. Er fod pwysau'n parhau'n sylweddol, rydym wedi gwneud cynnydd ar draws gwasanaethau plant, gofal oedolion, llesiant a datblygu gweithlu i gyflawni ein hamcan.

Mewn gwasanaethau plant rydym wedi cryfhau help cynnar a chymorth i deuluoedd, ac wedi sicrhau mwy o sefydlogrwydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd da mewn datblygu mwy o leoliadau yn y sir ar gyfer plant a phobl ifanc, gan wella'r gallu i'w cadw'n agos at eu cymunedau a rhwydweithiau cymorth. Rydym wedi cryfhau'r cynnig i ofalwyr maeth a chyfrannu at gymuned faethu fwy cydlynol. Mae recriwtio a chadw gofalwyr maeth yn parhau yn her, gan adlewyrchu pwysau tebyg i'r rhai a welir ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig yn ehangach.



Gwnaethom gynydd wrth ddatblygu ac addasu gwasanaethau a chynyddu darpariaeth mewn ymateb i alw cynyddol am ofal cymdeithasol i oedolion. Rydym hefyd wedi cynyddu ffocws a galluedd gwasanaethau ataliol. Rydym wedi cynyddu gweithgaredd ailalluogi gyda dros hanner y pecynnau'n lleihau'r angen am gymorth pellach.

Rydym wedi cryfhau comisiynu gofal yn y cartref a gostwng oriau gofal na chaiff eu cyflawni yn sylweddol, o 804 awr y mis ym Mawrth 2023 i tua 271 awr y mis dros y flwyddyn ddiwethaf, gan olygu y gallwn yn awr gyflawni mwy o anghenion gofal yn y cartref. Mae adborth gan ddefnyddwyr gofal cymdeithasol oedolion yn dangos bodlonrwydd ychydig yn is gyda gofal a chymorth na blyneddau blaenorol, gyda 83% o oedolion eu dweud eu bod yn hapus. Rydym hefyd wedi agor Parc Severn View, cartref gofal arbenigol newydd sy'n cynyddu galluedd lleol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia ac yn darparu gofal hirdymor, ailalluogi a hefyd ofal seibiant.

Rydym hefyd yn cryfhau cymorth llesiant a chymunedol ehangach. Rydym wedi datblygu dulliau strategol tebyg i'r Strategaeth Byw Gwell a'n gwaith i ddod yn Rhanbarth Marmot, gan help i ffocysu gweithredu ar atal, gwydnwch a phenderfynyddion ehangach iechyd. Rydym wedi ehangu technoleg gynorthwyol, sy'n helpu mwy o breswylwyr i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, ac wedi cynyddu darpariaeth addasiadau tai sy'n gwella ansawdd bywyd a hyder.

Rydym wedi cefnogi iechyd meddwl pobl ifanc drwy raglenni gwasanaeth ieuencid, gyda phawb a gymerodd ran yn y rhaglen Rhesymeg Emosiynol yn adrodd gwella lles emosiynol, ac wedi ehangu yn sylweddol y nifer sy'n cymryd rhan mewn prosiectau iechyd a llesiant seiliedig ar natur.

Rydym yn parhau i gydnabod a chefnogi gofalwyr, ac wedi cryfhau gwybodaeth, cyfeirio a chymorth ymarferol. Anelwn ostwng amserau aros ar gyfer asesiadau gofalwyr. Rydym wedi datblygu ein gweithlu gofal cymdeithasol drwy recriwtio, cadw a modelau newydd tebyg o ofal micro a gynyddodd o wyth gofalwr yn 2022 i 59 o ofalwyr, rhyngddynt yn cyflenwi dros 900 awr o gymorth bob wythnos.



Lle i ddysgu



Lle mae pawb yn cael
cyfle i gyrraedd eu
potensial



Lle sy'n dysgu

Ein sgôr:
5 (Da iawn)

Dylai Sir Fynwy fod yn sir lle gall pob plentyn, person ifanc ac oedolyn ddysgu, datblygu sgiliau a chyflawni eu potensial. Mae dechrau da mewn bywyd yn helpu plant a phobl ifanc i feithrin hyder, gwydnwch ac uchelgais, a dysgu gydol oes yn galluogi preswylwyr i addasu, ailhyfforddi a chyfrannu drwy gydol bywyd fel oedolyn. Mae hyn yn golygu fod angen sicrhau fod pob dysgwr, yn arbennig y rhai bregus neu ddifreintiedig, yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir.

Rydym wedi cryfhau'r systemau, strategaethau a'r ddarpariaeth sydd eu hangen i ateb anghenion cynyddol dysgwyr. Rydym wedi diweddaru polisiau a chanllawiau allweddol a chryfhau cymorth aml-asiantaeth ar gyfer disgyblion bregus. Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn agos at y lefelau cyn y pandemig ar 93.9%. Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd hefyd wedi gwella, ar 89.5%, er ei fod yn dal yn is na'r lefelau cyn y pandemig. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn parhau yn her yn arbennig mewn ysgolion uwchradd.

Rydym wedi ymateb i gymhlethdod cynyddol ac ymddygiad sy'n herio drwy ail-lunio gwasanaethau cynhwysiant, gwella data, sefydlu panel cynhwysiant a gweithio gydag ysgolion i ddefnyddio symudiadau wedi'u rheoli, darpariaeth ddysgu ychwanegol a chymorth arall i osgoi gwaethygu. Mae gwaharddiadau cyfnod penodol yn dal yn uchel ac yn parhau i roi pwysau ar ysgolion a darpariaeth arbenigol. Fodd bynnag, cafodd pob gwaharddiad parhaol a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf eu dileu drwy weithio aml-asiantaeth cryfach a threfniadau cymorth amgen.

Mae addysgu, dysgu a datblygu cwricwlwm yn parhau'n gryf drwyddi draw. Mae dysgwyr mewn ysgolion uwchradd yn parhau i gyflawni'r canlyniadau a ddisgwylir ganddynt. Dengys arolygiadau Estyn fod llawer o ysgolion yn datblygu cwricwla eang, cytbwys a phwrpasol sy'n adlewyrchu eu cyd-destun ac yn diwallu anghenion disgyblion. Mae amrywiad yn parhau, yn arbennig ar gyfer disgyblion cyrhaeddiad is a dysgwyr difreintiedig, felly bydd ein cymorth a her yn parhau i fod â ffocws ar le mae angen fwyaf o angen gwella.


Rydym wedi cryfhau addysg gynhwysol gan helpu i greu dull gweithredu mwy cyson a chyfartal ar gyfer dysgwyr gydag

anghenion dysgu ychwanegol a rhwystrau eraill i ddysgu. Rydym yn gostwng dibyniaeth ar ddarpariaeth allan o'r sir drwy

ehangu darpariaeth arbenigol leol, yn cynnwys Canolfan Adnoddau Arbenigol Cymdeithasol, Emosiynol ac Iechyd Meddwl, a drwy ddatblygu darpariaeth ychwanegol mewn ysgolion. Mae'r galw am gymorth anghenion dysgu ychwanegol yn cynyddu ac mae ysgolion yn wynebu pwysau ariannol a chapasiti parhaus.

Rydym hefyd wedi cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgwyr a phreswylwyr Roedd rhaglen Ysbrydoli yn cefnogi 285 o bobl ifanc i ennill cymhwyster ychwanegol neu sgil bywyd yn ystod y flwyddyn. Rhoddodd Estyn gydnabyddiaeth i'r Gwasanaeth Ieuenctid am gefnogi hyder, gwydnwch a sgiliau bywyd pobl ifanc a gallodd pobl ifanc roi eu barn drwy bleidlais Gwneud Eich Marc a chynhadledd ieuenctid. Daeth addysg oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned yn fwy hygyrch drwy gymhorthdal i gysiau a gwaith partneriaeth gyda Choleg Gwent, gyda 963 wedi ymrestru yn ystod y flwyddyn.

Gwnaethom gynnydd mewn moderneiddio ysgolion ac addysg Gymraeg. Mae ysgol newydd pob oed Brenin Harri VIII yn y Fenni yn cynnig cyfleusterau dysgu modern, cynhwysol a sero net ar gyfer disgyblion 3 i 19 oed, yn cynnwys darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion gydag anghenion niwroddatblygiadol a dysgu cymhleth. Rydym hefyd wedi gwella ac ailfodelu darpariaeth gwasanaeth cyfeirio disgyblion yn ne Sir Fynwy, cwblhau adeilad meithrin newydd Tryleg, agor Ysgol Gymraeg Trefynwy a sicrhau safle newydd i Ysgol Gymraeg y Fenni.



Pa mor effeithlon y defnyddir adnoddau i gyflawni ein blaenoriaethau?

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi datblygu strategaethau galluogi i sicrhau ein bod yn alinio ein holl adnoddau i gyflawni'r blaenoriaethau yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Rydym wedi eu gwerthuso a dod i'r casgliad fod gennym drefniadau cadarn yn eu lle i alluogi a chefnogi darpariaeth gwasanaeth.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn diffinio'r set greiddiol o weithgareddau sy'n gyffredin i lywodraethiant corfforaethol cyrff cyhoeddus. Cafodd pob un eu hasesu yn defnyddio ein fframwaith gwerthuso:

Cynllunio corfforaethol, perfformiad a rheoli risg.
Aseswyd hyn fel **lefel 4 (Da)**. Heb newid o'r llynedd



Cynllunio ariannol. Aseswyd hyn fel **lefel 4 (Da)**.
Heb newid o'r llynedd



Cynllunio gweithlu (pobl). Aseswyd hyn fel **lefel 4 (Da)**.
Heb newid o'r llynedd



Caffael. Aseswyd hyn fel **lefel 3 (Digonol)**.
Heb newid o'r llynedd



Asedau. Aseswyd hyn fel **lefel 5 (Da iawn)**.
Heb newid o'r llynedd



Digidol a data. Aseswyd hyn fel **lefel 3 (Digonol)**.
Heb newid o'r llynedd



Democractiaeth a chraffu. Aseswyd hyn fel **lefel 4 (Da)**.
Heb newid o'r llynedd



Mae manylion pellach ar hyn ar gael fel rhan o'r gwerthusiad llawn sydd ar gael yn: www.monmouthshire.gov.uk/cy/cynllun-gwella

Beth yw eich barn chi?

Rydym wedi defnyddio peth o'r adborth a gawsom gan gyrff eraill i lunio'r adroddaid hwn a byddem yn falch iawn clywed eich barn i'n helpu i lywio asesiadau'r dyfodol. Cysylltwch â ni: improvement@monmouthshire.gov.uk

Pa mor effeithlon mae'r cyngor yn gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ar ganlyniadau a gytunwyd?

Gweithio mewn partneriaeth yw un o'r ffyrdd y gallwn gyflawni ein amcanion tra'n darparu gwerth am arian. Mae partneriaid allweddol yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent. Cydnabu ein Hasesiad Perfformiad Panel cymheiriaid diweddar gyfalaf cymdeithasol cryf a diwylliant partneriaeth allanol Sir Fynwy. Fe wnaeth yr asesiad ein hannog i sianelu'r cryfderau hyn ac argymhell ein bod yn datblygu dealltwriaeth a rennir o wydnwch cymunedol yng nghyd-destun Sir Fynwy.

Meysydd i'w Datblygu

Fel canlyniad i'r hunanasesiad, rydym wedi dynodi nifer o feysydd i'w datblygu, yn cynnwys:

- Gweithio gyda chymunedau a rhanddeiliaid i ddatblygu dealltwriaeth a rennir o wydnwch cymunedol.
- Cadarnhau prosiectau presennol a rhoi blaenoriaeth i brosiectau yn y dyfodol i sicrhau canlyniadau gwell drwy ein rhaglen newid.
- Cryfhau cynllunio gweithlu ac olyniaeth.

Mesur Cynnydd

Defnyddiwn ystod eang o fesurau perfformiad i werthuso ein cynnydd ar ein blaenoriaethau. Mae hyn i'w cael ym mhob rhan o'r asesiad. Rydym hefyd yn olrhain cynnydd ar ystod o fesurau canlyniad ar lefel poblogaeth. Caiff mesurau allweddol eu cyflwyno'n gyson i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg fel y gallwn reoli perfformiad ac addasu darpariaeth lle nad ydym yn cyflawni ein disgwyliadau.

